*Gorchymyn drafft a osodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 94(4) o Ddeddf Daliadau Amaethyddol 1986, i'w gymeradwyo drwy benderfyniad gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru*

O F F E R Y N N A U S T A T U D O L
C Y M R U D R A F F T

# 2019 Rhif (Cy. )

# LANDLORD A THENANT, CYMRU

## DALIADAU AMAETHYDDOL

# Gorchymyn Deddf Daliadau Amaethyddol 1986 (Amrywio Atodlen 8) (Cymru) 2019

### NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Mae'r Gorchymyn hwn yn diwygio Rhan 1 o Atodlen 8 i Ddeddf Daliadau Amaethyddol 1986 fel y mae'n gymwys o ran Cymru.

Mae adran 64 o Ddeddf Daliadau Amaethyddol 1986 yn rhoi'r hawl i denant daliad amaethyddol, wrth i'r denantiaeth ddod i ben ac wrth iddo ymadael â'r daliad, gael digollediad oddi wrth y landlord am waith gwella a bennir yn Rhan 1 o Atodlen 8 y mae'r tenant wedi ei gyflawni ar y daliad.

Mae erthygl 2 o'r Gorchymyn hwn yn mewnosod paragraffau newydd yn Atodlen 8 i ddarparu ar gyfer talu digollediad am waith gwella o ganlyniad i ddodi deunyddiau gwella pridd, gweddillion treuliad anaerobig, tail a gwrtaith ar y tir (gyda dim cyfyngiadau o ran sut y caffaelir y sylweddau hynny); ac am waith gwella o ganlyniad i dail a gaiff ei storio ac sydd wedi deillio o fwyta, gan dda byw ac aelodau teulu'r ceffyl ar y daliad, rawn (a gynhyrchir ar y daliad ai peidio) neu fwyd anifeiliaid arall nas cynhyrchir ar y daliad.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Gorchymyn hwn. O ganlyniad, lluniwyd Asesiad Effaith Rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Gorchymyn

hwn. Gellir cael copi oddi wrth: Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.

*Gorchymyn drafft a osodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 94(4) o Ddeddf Daliadau Amaethyddol 1986, i'w gymeradwyo drwy benderfyniad gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru*

O F F E R Y N N A U   S T A T U D O L
C Y M R U   D R A F F T

# 2019 Rhif (Cy. )

# LANDLORD A THENANT, CYMRU

## DALIADAU AMAETHYDDOL

# Gorchymyn Deddf Daliadau Amaethyddol 1986 (Amrywio Atodlen 8) (Cymru) 2019

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *** |
| *Yn dod i rym* | *** |

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddir gan adran 91(1) o Ddeddf Daliadau Amaethyddol 1986(**1**).

Yn unol â'r ddarpariaeth honno, mae Gweinidogion Cymru wedi ymgynghori â'r cyrff hynny o bersonau yr ymddengys i Weinidogion Cymru eu bod yn cynrychioli buddiannau landlordiaid a thenantiaid daliadau amaethyddol.

Yn unol ag adran 94(4) o Ddeddf Daliadau Amaethyddol 1986, gosodwyd drafft o'r Gorchymyn hwn gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru ac fe'i cymeradwywyd ganddo drwy benderfyniad.

(**1**) 1986 p. 5; mae adran 96(1) yn diffinio mai "the Minister" ("y Gweinidog") o ran Cymru yw'r Ysgrifennydd Gwladol. Mae swyddogaethau'r Gweinidog o dan y Ddeddf bellach yn arferadwy gan Weinidogion Cymru (o ran Cymru) yn rhinwedd Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672), ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32), a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi.

**Enwi, cymhwyso a chychwyn**

**1.**—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Deddf Daliadau Amaethyddol 1986 (Amrywio Atodlen 8) (Cymru) 2019.

(2) Mae'r Gorchymyn hwn yn gymwys o ran Cymru.

(3) Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 1 Tachwedd 2019.

**Diwygio Atodlen 8**

**2.**—(1) Mae Rhan 1 o Atodlen 8 i Ddeddf Daliadau Amaethyddol 1986 (gwaith gwella byrdymor y mae digolllediad yn daladwy amdano) wedi ei diwygio fel a ganlyn.

(2) Ar ôl paragraff 4A mewnosoder—

> "**4B.** Application to land in Wales of manure, fertiliser, soil improvers and digestate."

(3) Hepgorer paragraff 5.

(4) Ar ôl paragraff 5A mewnosoder—

> "**5B.**—(1) In relation to Wales, production of manure arising from the consumption on the holding of relevant feedingstuff by livestock and equidae where the manure is held in storage on the holding.
>
> (2) In this paragraph "relevant feedingstuff" means—
>
> (a) corn (whether produced on the holding or not), or
>
> (b) cake or other feedingstuff not produced on the holding."

(5) Hepgorer paragraff 6.

*Enw*
Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig, un o Weinidogion Cymru
Dyddiad